# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 7 Hydref 2014** |
| Amser: | **09.00 – 10.17** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/1f482857-fe9d-46c1-abec-765b1fae5cde?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

View the meeting transcript.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-600 Deiseb i achub y gwasanaeth meddygon teulu

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### 2.2 P-04-601 Gwaharddiad Arfaethedig ar Ddefnyddio e-sigaréts Mewn Mannau Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i ysgrifennu at Y Prif Weinidog, yn unol â chais y deisebwyr, yn gofyn iddo gynnal asesiad annibynnol o'r adnoddau sydd eu hangen ar y Mentrau Iaith i'w gweithredu i'w llawn botensial; ac
- i aros am ymateb y Prif Weinidog cyn ystyried a ddylid gwahodd y deisebwyr i fynychu cyfarfod y Pwyllgor i egluro eu pryderon.

### 3.2 P-04-487 Cynllun benthyg blaendal Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebwyr.

### 3.3 P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn Plant yng Nghymru ar beth maent yn bwriadu ei wneud i ddatblygu'r gwaith yn y maes hwn o dan y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd; a
- gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi pa gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd o ran argymhellion o Adroddiad Terfynol yr Uned Gyfranogi.

### 3.4P-04-529 Ombwdsmon Asiantaethau Gosod Tai ar gyfer Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog i ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd gan y prif ddeisebydd; ac unwaith y bydd wedi dod i law
- trefnu sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r deisebwyr, ynghyd â deisebwyr P-04-480 (Safonau Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat), i gael gwell dealltwriaeth o'u pryderon.

### 3.5P-04-573 Galwad ar Lywodraeth Cymru i Ymchwilio i'r System Lesddaliadau Preswyl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog ymateb i sylwadau'r deisebwyr, yn arbennig ynghylch effaith bosibl ar niferoedd llai o aelwydydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad adroddiad LEASE.

### 3.6P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i drefnu sesiwn dystiolaeth lafar mewn lleoliad anffurfiol gyda'r Ddraig Ffynci, y Comisiynydd Plant, Plant yng Nghymru a chynrychiolydd o Gomisiwn y Cynulliad i geisio gweld a ellir canfod ffordd i ddarparu llwyfan cynrychioliadol cenedlaethol parhaus ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

### 3.7P-03-315 Deiseb i gael croesfan newydd dros Afon Dyfi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd; a
- gofyn am wybodaeth bellach gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar oblygiadau'r trefniadau cyllideb newydd.

### 3.8P-04-507 Mesur iawnderau yng Nghymru ar gyfer menywod a merched: ymlynu wrth y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Gwahaniaethu o bob math yn Erbyn Menywod (CEDAW)

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb o ystyried yr anallu i ddatblygu'r ddeiseb gyda'r prif ddeisebydd.

### 3.9P-04-397 Cyflog Byw

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd; a
- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am sicrwydd y bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ym mis Rhagfyr.

### 3.10 P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i anfon sylwadau pellach a gwahoddiad y deisebydd ymlaen at y Gweinidog a'i swyddogion a gofyn am gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau.

### 3.11 P-04-533 Cynllunio Amgylcheddol ar gyfer Safleoedd Tyrbinau Gwynt ar Raddfa Fach

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol newydd am ei farn am sylwadau'r deisebydd.

### 3.12 P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebwyr.

### 3.13 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y Gweinidog am sylwadau'r deisebwyr;
- ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan roi sylw i'r ddeiseb; ac
- anelu at gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad fel y gellir trafod y mater yn y Cyfarfod Llawn yn unol â chais y deisebwyr.

### 3.14 P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.15 P-04-485 Camddefnyddio contractau dros dro yn y sector Addysg Bellach

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ei farn am y sefyllfa bresennol; ac yna
- aros am ganlyniadau'r adolygiad am y sefyllfa ym mis Ebrill 2015.

### 3.16 P-04-518 Ciniawau ysgol am ddim yn gyffredinol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn bellach gan y Gweinidog yn sgil sylwadau'r deisebydd; a
- gwneud penderfyniad ynghylch cau'r ddeiseb.

### 3.17 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.18 P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at arweinydd Cyngor Caerffili am ymateb; a
- thynnu sylwadau'r deisebydd i sylw'r Gweinidog.

### 3.19 P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.20 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r pwyntiau a wnaed ar ran y deisebwyr.

### 3.21 P-04-552 Diogelu Plant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.23 P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb pellach y Gweinidog.

### 3.24 P-04-535 Achubwch ein Gorsafoedd Tân

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am sylwadau pellach gan y deisebwyr; a
- gofyn am ymateb am ohebiaeth y Pwyllgor sydd heb ei hateb.

### 3.25 P-04-554 Polisi swyddogol gan Lywodraeth Cymru sy’n gwahardd sefydliadau hyfforddi nad ydynt yn dryloyw rhag gweithio mewn cyrff cyhoeddus.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau’r ddeiseb.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod

The motion was agreed.

### 3.22 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i’r Gweinidog a’r Bwrdd Iechyd ystyried ac ymateb i farn y deisebwyr a nodwyd yn eu sylwadau, yn enwedig mewn perthynas â’r adroddiad a gynigiwyd gan yr Athro Marcus Longley.

## 5 Gweithdrefnau’r Pwyllgor ar gyfer Trafod Deisebau

Ystyriodd y Pwyllgor weithdrefnau ar gyfer ystyried deisebau.